## ATODLEN

Rheoliad 15

### Dogfennau

**1.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), mae darpariaethau'r Atodlen hon yn gymwys i unrhyw ddogfen a gyhoeddir o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Nid yw darpariaethau'r Atodlen hon yn gymwys i—

(a) hysbysiad terfyn allyriadau;

(b) hysbysiad dal a storio carbon; ac

(c) hysbysiad allyriadau blynyddol y Safon Perfformiad Allyriadau.

**2.** Rhaid i ddogfen fod yn ysgrifenedig a bod wedi ei dyddio.

**3.** Mae dogfen a roddir i berson ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith i gael ei thrin fel pe byddai wedi ei rhoi ar y diwrnod gwaith nesaf.

**4.** Caniateir rhoi dogfen i berson drwy—

(a) ei danfon i'r person hwnnw yn bersonol;

(b) ei gadael yng nghyfeiriad cywir y person hwnnw;

(c) ei hanfon drwy'r post neu ffacs i gyfeiriad cywir y person hwnnw;

(d) ei hanfon drwy e-bost i'r person hwnnw; neu

(e) ei chyflwyno drwy borth penodedig ar wefan y person hwnnw.

**5.** At ddibenion paragraff 4(a), rhoddir dogfen i—

(a) corff corfforaethol, pan y'i rhoddir i berson sydd â rheolaeth o'r corff hwnnw neu sy'n ei reoli;

(b) partneriaeth, pan y'i rhoddir i bartner neu berson sydd â rheolaeth o'r busnes partneriaeth neu sy'n ei reoli;

(c) cymdeithas anghorfforedig, pan y'i rhoddir i berson sydd â chyfrifoldebau rheoli mewn cysylltiad â'r gymdeithas.

**6.** At ddibenion paragraff 4(d), rhoddir dogfen i—

(a) corff corfforaethol, pan y'i hanfonir i gyfeiriad e-bost—

(i) y corff corfforaethol, neu

(ii) person sydd â rheolaeth dros y corff hwnnw neu sy'n ei reoli,

pan fo'r cyfeiriad hwnnw wedi ei ddarparu gan y corff hwnnw ar gyfer cynnal materion y corff hwnnw;

(b) partneriaeth, pan y'i hanfonir i gyfeiriad e-bost—

(i) y bartneriaeth, neu

(ii) partner neu berson sydd â rheolaeth dros y busnes partneriaeth neu sy'n ei reoli,

pan fo'r cyfeiriad hwnnw wedi ei ddarparu gan y bartneriaeth honno ar gyfer cynnal materion y bartneriaeth honno;

(c) cymdeithas anghorfforedig, pan y'i hanfonir i gyfeiriad e-bost person sydd â chyfrifoldeb rheoli mewn cysylltiad â'r gymdeithas, pan fo'r cyfeiriad hwnnw wedi ei ddarparu gan y gymdeithas honno ar gyfer cynnal materion y gymdeithas honno.

**7.** Caiff person, yn lle cyfeiriad cywir a fyddai'n gymwys fel arall, nodi cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig lle y caniateir rhoi dogfennau i'r person hwnnw neu rywun ar ran y person hwnnw, a rhaid trin y cyfeiriad hwnnw yn lle hynny fel cyfeiriad cywir y person hwnnw.

**8.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cyfeiriad cywir" ("*proper address*") yw yn achos—

(a) corff corfforaethol, y swyddfa gofrestredig (os yw yn y Deyrnas Unedig) neu brif swyddfa'r corff hwnnw yn y Deyrnas Unedig;

(b) partneriaeth, prif swyddfa'r bartneriaeth yn y Deyrnas Unedig;

(c) unrhyw berson arall, cyfeiriad hysbys diweddaraf y person hwnnw, sy'n cynnwys cyfeiriad e-bost;

(d) unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig;

ystyr "diwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith" ("*non-working day*") yw—

(a) dydd Sadwrn neu ddydd Sul;

(b) Noswyl Nadolig, Diwrnod Nadolig neu Ddydd Gwener y Groglith; neu

(c) diwrnod sy'n ŵyl y banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**1**) yn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig,

a rhaid darllen "diwrnod gwaith" ("*working day*") yn unol â hynny; ac

ystyr "porth penodedig" ("*dedicated portal*") yw cyfleuster ar wefan person sydd wedi ei sefydlu er mwyn gallu cyfathrebu â'r person hwnnw'n electronig.

(**1**) 1971 p. 80.